# P-04-483 Polisi Cymraeg Clir / Plain English ar gyfer pob cyfathrebiad y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru – Gwybodaeth Ategol gan y deisebydd i'r tîm clercio, 05.05.2013

Diolch Sian,

Dyma engreifftiau bras o ambell sgwennu/cyfieithiadau gan y llywodraeth dwi wedi eu pigo allan yn sydyn, a sydd yn annerbynniol o anghlir yn fy marn i. Nid y geiriau eu hunain yn arbennig ond y diffyg siarad plaen a dealladwy, sydd yn golygu nad yw'r wybodaeth yn cael ei droslwyddo i'r cyhoedd mor effeithiol ag y gallai fod. Jisd tri engraifft sydd yn fama ond gobeithio fod y pwynt cyffredinnol ynglyn a'r angen am bolisi siarad plaen yn dod drosodd;

1. Y text yma islaw a mwy o'r linc yma:http://wales.gov.uk/consultations/education/inductionregulations/?lang=cy

"Ymgynghoriad ar ddiwygiadau i'r rheoliadau ymsefydlu yng Nghymru"
Yn y ddogfen ymgynghori hon nodir y cynigion ar gyfer y rheoliadau newydd i ymsefydlu athrawon newydd gymhwyso yng Nghymru.
**Dechrau'r cyfnod ymgynghori:** 03/04/2012
**Diwedd y cyfnod ymgynghori:** 29/05/2012
Mynegodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ei fod yn bwriadu adolygu ymsefydlu statudol yng Nghymru ym mis Chwefror 2011. Diben yr adolygiad hwn yw datblygu ymagwedd gadarn o ansawdd uchel sy'n gyson ar raddfa genedlaethol tuag at ymsefydlu'r holl athrawon newydd gymhwyso ar draws Cymru, a rhoi mwy o hyblygrwydd er mwyn caniatáu i athrawon llanw gwblhau eu cyfnod ymsefydlu yng Nghymru"

2. Gweler y text islaw yn y linc http://wales.gov.uk/legislation/?lang=cy

"Mae'r ddeddfwriaeth a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru yn ddarostyngedig i weithdrefnau gwahanol ac mae'n bosibl y bydd angen i Gynulliad Cenedlaethol Cymru graffu arni a'i chymeradwyo"

3. Yn ola, ma'r text yma o'r adroddiad Saesneg yma ar ddatblygu economaidd; http://wales.gov.uk/docs/det/report/110330erpframeworken.pdf

**"Assessing Progress & Summative** (evaluation)

As commitments are delivered,then focus will in time move from monitoring activities and implementation to measuring the benefits of what is being achieved i.e assessing how well the Assembly Government is intervening. Regular stakeholder surveys will be a key input, and improvements to the business environment a key consideration. Activities delivered against the five Economic Renewal priorities will be evaluated, and when appropriate,an overall summative evaluation will be undertaken to understand the cumulative impacts of intervention
.

**Tracking & Outcome Indicators**

In Economic Renewal, a commitment was made to track the progress of the Welsh economy through a broad suite of indicators. A move away from an approach characterised by an excessive and sometimes unreflective focus on Gross Value Added was also suggested. The tracking and outcome

indicators should not be regarded as identifying those areas upon which Government alone can seek to have direct, attributable or significant influence , but they are important to understanding the wider context within which the Assembly Government intervenes. Baselines will be established, and indicators disaggregated by geography and demography where possible and appropriate"

Gobeithio fod hyn yn help yng nghyswllt y ddeiseb am bolisi Cymraeg a Saesneg clir,

Cofion,

Gruff